| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 4 Gorffennaf 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Nicola Kneale, Pennaeth Gwasanaeth dros dro y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau |
| **Awdur yr adroddiad** | Emma Horan, Swyddog Cynllunio a Pherfformiad |
| **Teitl** | Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad, 2022 i 2023 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn cyd-fynd ag Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad ar gyfer 2022 i 2023, sydd ynghlwm. Yn yr adroddiadau hyn rhoddir ein dadansoddiad diwedd blwyddyn o gynnydd a heriau gyda'n hamcanion perfformiad allweddol (hynny yw, themâu ein Cynllun Corfforaethol), ac am y tro cyntaf mae'n cyflwyno data yn unol â fframwaith rheoli perfformiad y Cynllun Corfforaethol newydd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae darparu adroddiadau'n rheolaidd yn un o ofynion monitro hanfodol fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor ac yn ofynnol er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur Cymru 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.2 Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau bob chwarter blwyddyn i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Mae ein Crynodeb Gweithredol, a gyflwynir ynghyd â'r adroddiad hwn, yn rhoi datganiad gwerthusol o'n cynnydd.

2.3 Mae angen penderfyniad i gymeradwyo Hunanasesiad Perfformiad y Cyngor 2022 i 2023.

## 3. Beth yw’r Argymhellion?

3.1. Argymhellir, yn amodol ar unrhyw newidiadau cytunedig, bod y Cyngor yn cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2022 i 2023.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ynghyd â’r adroddiad hwn, cyflwynir dwy ddogfen.  Yn Atodiad I cyflwynir ein Crynodeb Gweithredol, sy’n amlygu uchafbwyntiau ein perfformiad wrth gyflawni ein hamcanion (hynny yw, themâu ein Cynllun Corfforaethol, sef ein Hamcanion Lles a Chydraddoldeb) a’r saith o feysydd llywodraethu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. I bob pwrpas, mae’r paragraffau byr yn y ddogfen hon yn ddatganiad o’n perfformiad wrth gyflawni ein swyddogaethau, sydd hefyd yn rhoi rhagolwg o’r heriau sy'n ein hwynebu a meysydd i'w gwella. Rydym wedi cynnwys adran newydd yn yr adroddiad hwn o’r enw ‘Ar y cyfan, pa mor dda ydyn ni’n ei wneud?’. Yn yr adran hon amlygir meysydd y dylem ganolbwyntio arnynt er mwyn sicrhau y gellir cynnal perfformiad a’i wella lle bo’r angen.

4.2 Atodiad II yw ein Hadroddiad Diweddaru Perfformiad chwarterol arferol, sy’n rhan o’n proses ar gyfer hunanasesu parhaus ac yn cynnwys yr holl dystiolaeth (mewnol ac allanol) a dadansoddiadau y gellir eu defnyddio wrth ateb y cwestiynau ‘Pa mor dda ydyn ni’n ei wneud?’, ‘Sut ydyn ni’n gwybod?’, a ‘Beth a sut allwn ni ei wneud yn well’? Mae’r Adroddiad Diweddaru Perfformiad hwn yn rhoi’r darlun diweddaraf o fis Ionawr i fis Mawrth 2023, a dyma’r adroddiad perfformiad cyntaf ar gyfer fframwaith rheoli perfformiad ein Cynllun Corfforaethol newydd. Mae’r Cynllun Corfforaethol newydd a'r fframwaith rheoli perfformiad cysylltiedig gryn dipyn yn fwy na'n un diwethaf, ond rydym wedi llwyddo i gadw'r adroddiad yr un faint â'n hadroddiadau blaenorol. Mae gwasanaethau a’r Tîm Cynllunio Strategol wedi gwneud llawer iawn o waith i goladu’r data sydd ar gael i ni, ond rydym yn cydnabod bod rhai bylchau i’w harchwilio ymhellach a meysydd i’w datblygu. Mae’r meysydd hynny’n cael eu hamlygu a’u trafod yn yr adroddiadau. Bydd ein hadroddiad perfformiad nesaf ar gyfer mis Ebrill i fis Mehefin yn debygol o roi darlun mwy cyflawn o berfformiad. Mae’r Adroddiad Diweddaru Perfformiad hwn ar gyfer mis Ionawr i fis Mawrth, o’i gyfuno â’r Crynodeb Gweithredol a’r tri Adroddiad Diweddaru blaenorol, yn ffurfio ein Hunanasesiad ar gyfer 2022 i 2023. Wrth ddarllen y pedwar o’r Adroddiadau Diweddaru Perfformiad gyda’i gilydd bydd modd gweld y gwelliannau rydym ni wedi’u nodi gydol y flwyddyn i gynnal perfformiad.

4.3 O’n hadroddiad mis Hydref i fis Rhagfyr i’r adroddiadau presennol hyn, gwnaethom gynnwys adrannau Lles a Chydraddoldeb sy’n nodi ein cyfraniadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015; Deddf Cydraddoldeb 2010, a Rheoliadau dilynol Cymru 2011 a 2021 (yn cynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol). Rydym hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy’n ymdrin â chynlluniau corfforaethol i hyrwyddo hynny.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae’r Hunanasesiad o Berfformiad yn cynnwys arfarniad o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni themâu ei Gynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i’r Cyngor Sir ym mis Hydref 2022. Bydd prosiectau / rhaglenni gwaith newydd o fewn y Cynllun Corfforaethol yn cael eu hasesu’n unigol, fel ag y bydd unrhyw gamau gweithredu newydd wrth symud ymlaen.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Datblygwyd yr adroddiadau gan y Tîm Cynllunio Strategol mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y Cyngor. Gofynnwyd am adborth ar yr adroddiad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Craffu Perfformiad, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a’r Cabinet.

8.2. Ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad ar 14 Gorffennaf, gan nodi’r camau gweithredu a ganlyn fel rhan o’i argymhellion:

- Bod yr adroddiad yn rhoi diffiniadau clir, yn enwedig o ran caffael ac asedau, ymhlith pethau eraill.

- Byddai'r adroddiad yn elwa o osod perfformiad y Cyngor mewn cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol ehangach, gan nodi mai'r sefyllfa diofyn yw meincnodi yn erbyn dangosyddion cenedlaethol.
- Mae'r Pwyllgor yn nodi ac yn ystyried yr arweinyddiaeth ragorol o ran newid yn yr hinsawdd, ond yn cydnabod y bydd angen cydweithio â'r holl bartneriaid er mwyn cyflawni'r amcanion.
- Nododd y Pwyllgor efallai bod cyfle i ymgysylltu'n fwy agored â fforymau busnes lleol a rhanbarthol i lywio ymgysylltiad mwy eang â budd-ddeiliad.
- O ran tai'r Cyngor, mae'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd yr ymgynghorir yn effeithlon ac ystyrlon â thenantiaid a budd-ddeiliaid, yn enwedig rhai â nodweddion gwarchodedig.

8.3. Gydol y drefn anogwyd Aelodau i drafod agweddau ar yr adroddiadau sydd ynghlwm y dymunent graffu arnynt yn fanylach.

8.4. Pan fydd wedi'i gymeradwyo, bydd ein hunanasesiad yn cael ei rannu â'r Archwilydd Cyffredinol, Gweinidogion Cymru ac ati fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel nodwyd yn adran 6, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn codi o'r adroddiad hwn. Dylid nodi, fodd bynnag, y gallai sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn 2024-2025 a thu hwnt ei gwneud yn anodd i wasanaethau gynnal lefelau perfformiad mewn rhai meysydd yn y dyfodol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Byddai methu â chyhoeddi ein Hunanasesiad yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol i enw da'r Cyngor.

10.2 Y risg y bydd perfformiad gwael yn cael ei adrodd allan o'i gyd-destun, gan effeithio ar ein henw da. Felly, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cyfathrebu.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (adran 89).

11.2 Rhan 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (adran 13).

11.3 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (adran 16); a Rheoliadau’r Ddeddf Cydraddoldeb (Awdurdodau sy’n ddarostyngedig i Ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021.